# Dan y Wenallt

- Yn y wers hon rydym yn mynd i ddysgu am Dylan Thomas a’i ddrama ‘Dan y Wenallt’.

- Byddwn hefyd yn cael cyfle i chwarae gyda chlymau tafod.

# Dylan Thomas

- Awdur oedd Dylan Thomas.
- Roedd yn ysgrifennu am ei fywyd, ei ffrindiau ac am Gymru.
- Mae rhai cerddi'n ddifrifol a rhai'n ddoniol.
- Ganwyd ef ym 1914 ac roedd ei gartref yn Abertawe, De Cymru.

# Dan y Wenallt

- ‘Dan y Wenallt’ yw gwaith enwocaf Dylan Thomas.
- Disgrifiodd Dylan y ddrama fel cerdd ddramatig.
- Darlledwyd hi ar y radio fel drama.
- Gwrandewch ar agoriad ‘Dan y Wenallt’.
- Peidiwch â phoeni os nad ydych chi’n deall pob gair – gwrandewch ar sain y geiriau.

# Dan y Wenallt

- Oeddech chi'n meddwl ei bod hi'n swnio fel cerdd neu fel drama? Pam?

- Mae Dylan Thomas yn disgrifio pentref – faint o'r gloch yw hi yn y pentref?

- Roedd Dylan Thomas yn hoffi chwarae â geiriau. Glywsoch chi eiriau a oedd yn odli yn y darn? Beth oedden nhw?

# Sain geiriau

- Roedd sain geiriau'n bwysig i Dylan Thomas.
- Dywedwch: "bechgynnach yn breuddwydio'n gellweirus"
- Ydych chi'n gallu ei ddweud yn gyflym?

# Clymau tafod

- Rydym yn galw geiriau sy'n anodd eu dweud yn **glymau tafod**
- Allwch chi ddweud y rhain?
  - Oer yw eira ar Eryri.
  - Llongyfarchiadau, llanciau Llanelli.
  - Barf gafr, barf gafr.
  - Rowliodd Lowri lawr y lôn.
  - Wel, wedodd Wil wrth y wal, ond wedodd y wal ddim byd wrth Wil.
  - Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch

# Clymau tafod

- Mae nifer o glymau tafod yn dechrau gyda'r un llythyren. Rydym yn galw hyn yn gyflythreniad neu'n gyflythrennu.

- Allwch chi feddwl am rhai cyflythreniadau?
  - E.e. gwair gwyrdd Gareth

# Clymau tafod

- Ewch ati i greu eich clymau tafod eich hunain.

- Wedi i chi orffen, ceisiwch ddweud clymau tafod eich gilydd.